Dyrchafwn ein calonnau atat ti, O Dduw; mor fawr wyt ti.
Ti yw ein gwaredwr; ti yw ein grym; ti yw ein nerth.
Ti sy'n rhoi dŵr bywiol i dorri ein syched ysbrydol.
Ti sy'n haelfrydig tu hwnt i'n dychymyg.
Ti sy'n rhoi rhoddion anghymharol.
Atat ti, O Dduw, dyrchafwn ein calon, codwn ein llygaid
a bloeddiwn ein haddoliad. **Amen.**

Luc 7:2-18

… ac yn amser archoffeiriadaeth Annas a Caiaffas, daeth gair Duw at Ioan fab Sachareias yn yr anialwch. Aeth ef drwy'r holl wlad oddi amgylch yr Iorddonen gan gyhoeddi bedydd edifeirwch yn foddion maddeuant pechodau, fel y mae'n ysgrifenedig yn llyfr geiriau'r proffwyd Eseia:

> "Llais un yn galw yn yr anialwch,
> 'Paratowch ffordd yr Arglwydd,
> unionwch y llwybrau iddo.
> Caiff pob ceulan ei llenwi,
> a phob mynydd a bryn ei lefelu;
> gwneir y llwybrau troellog yn union,
> a'r ffyrdd garw yn llyfn;
> a bydd y ddynolryw oll yn gweld iachawdwriaeth Duw.' "

Dywedai wrth y tyrfaoedd oedd yn dod allan i'w bedyddio ganddo: "Chwi epil gwiberod, pwy a'ch rhybuddiodd i ffoi rhag y digofaint sydd i ddod? Dygwch ffrwythau gan hynny a fydd yn deilwng o'ch edifeirwch. Peidiwch â dechrau dweud wrthych

eich hunain, ‘Y mae gennym Abraham yn dad’, oherwydd rwy'n dweud wrthych y gall Duw godi plant i Abraham o'r cerrig hyn. Ac y mae'r fwyell eisoes wrth wraidd y coed; felly, y mae pob coeden nad yw'n dwyn ffrwyth da yn cael ei thorri i lawr a'i bwrw i'r tân.” Gofynnai'r tyrfaoedd iddo, “Beth a wnawn ni felly?” Atebai yntau, “Rhaid i'r sawl sydd ganddo ddau grys eu rhannu ag unrhyw un sydd heb grys, a rhaid i'r sawl sydd ganddo fwyd wneud yr un peth.” Daeth casglwyr trethi hefyd i'w bedyddio, ac meddent wrtho, “Athro, beth a wnawn ni?” Meddai yntau wrthynt, “Peidiwch â mynnu dim mwy na'r swm a bennwyd ichwi.” Byddai dynion ar wasanaeth milwrol hefyd yn gofyn iddo, “Beth a wnawn ninnau?” Meddai wrthynt, “Peidiwch ag ysbeilio neb trwy drais neu gamgyhuddiad, ond byddwch fodlon ar eich cyflog.”

Gan fod y bobl yn disgwyl, a phawb yn ystyried yn ei galon tybed ai Ioan oedd y Meseia, dywedodd ef wrth bawb: “Yr wyf fi yn eich bedyddio â dŵr; ond y mae un cryfach na mi yn dod. Nid wyf fi'n deilwng i ddatod carrai ei sandalau ef. Bydd ef yn eich bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân. Y mae ei wyntyll yn barod yn ei law, i nithio'n lân yr hyn a ddyrnwyd, ac i gasglu'r grawn i'w ysgubor. Ond am yr us, bydd yn llosgi hwnnw â thân anniffoddadwy.” Fel hyn, a chyda llawer anogaeth arall hefyd, yr oedd yn cyhoeddi'r newydd da i'r bobl.

Myfyrdod

Cyfnod y paratoi yw'r Adfent. Yn y Testament Newydd yr un sy'n paratoi y bobl ar gyfer gweinidogaeth Crist yw Ioan Fedyddiwr. Ei neges oedd fod yn rhaid i'w ffordd o fyw newid.

Y mae'n eu **rhybuddio** na allent mwyach ddibynnu ar eu traddodiad crefyddol; 'Peidiwch â dechrau dweud wrthych eich hunain, "Y mae gennym Abraham yn dad"

Y mae'n **cynghori** rhai i wneud newidiadau ymarferol yn eu byw bob dydd, megis pan ddywed wrth y casglwyr trethi; "Peidiwch â mynnu dim mwy na'r swm a bennwyd ichwi."

Ac y mae'n **tynnu sylw** pawb at fawredd yr un fyddai yn ei ddilyn, sef Iesu Grist; '"…ond y mae un cryfach na mi yn dod. Nid wyf fi'n deilwng i ddatod carrai ei sandalau ef."'

Nid oes rhyfedd fod i bregethu Ioan Fedyddiwr le amlwg yn yr Eglwys yn ystod tymor yr Adfent. O gymhwyso ei eiriau ar ein cyfer ni, gwelwn nad digon i ninnau ychwaith yw arddel y label Cristnogol, y dylai ein ffydd gael ei hadlewyrchu yn ein byw o ddydd i ddydd, a hynny wrth inni arddel Crist yn frawd a cheidwad. Meddai Morgan Rhys (C Ff 439);

Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
dyma un sy'n caru maddau
i bechaduriaid mawr eu bai;
diolch iddo
byth am gofio llwch y llawr.

Gweddi

Mawl i ti, Arglwydd Dduw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Molwn di am y rhodd o dystion i'th gariad.
Diolchwn am dystiolaeth Ioan Fedyddiwr
a'i neges i'r bobl sy'n berthnasol i ni heddiw.
Yn ei stori a'i ddysgeidiaeth, gwelwn galon dy fod,
tegwch a chyfiawnder a chydraddoldeb i'th bobl.
Diolchwn i ti am y bywyd cyffredin bob dydd sy'n tystio

i’th allu a’th ogoniant.
Diolchwn i ti dy fod bob amser yn ein synnu
ac yn ein cyfarfod yn union ble rydym.
Diolchwn am dy oleuni yn ein hamseroedd tywyll ni,
am dy law pan fyddwn yn unig,
am dy arweiniad pan fyddwn yn ansicr.
I ti, ein Duw sydd dri yn un, cynigiwn ein mawl a’n diolchgarwch. **Amen.**

Emyn 479

Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
a deued pawb ynghyd
i'w dderbyn a'i gydnabod ef
yn Geidwad i'r holl fyd,
yn Geidwad i'r holl fyd,
yn Geidwad, yn Geidwad i'r holl fyd.

Aed y newyddion da ar led,
awr gorfoleddu yw;
seinied pawb drwy'r ddaear gron
eu cân o fawl i Dduw,
eu cân o fawl i Dduw,
eu cân, eu cân o fawl i Dduw.

Boed ysbryd gwell rhwng gwlad a gwlad
heb ryfel, dig na chas,
a phlyged holl arweinwyr byd
i'w dderbyn ef a'i ras,
i'w dderbyn ef a'i ras,
i'w dderbyn, i'w dderbyn ef a'i ras.

Ein nerth a'n gobaith oll bob awr
yw ei Efengyl ef:
daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
Hosanna iddo ef,
Hosanna iddo ef,
Hosanna, Hosanna iddo ef!

J. R. JONES, Aberystwyth

Ctrl a chlic
https://youtu.be/NPByYGkKKjs

Côr Aelwyd y Waun Ddyfal a Bechgyn Bro Taf yn ymuno i ganu "Daeth Crist in Plith"!

Gweddi

Arglwydd, helpa ni i fyw mewn heddwch;
i fod yn ddewr;
i ddal ein gafael yn yr hyn sy'n dda;
i gryfhau'r gwangalon;
i gefnogi'r gwan;
i barchu pawb;
ac i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Bydd o'n mewn ac yn ein plith,
ac aros gyda ni bob amser.
Amen.

Gweddïau oddi ar wefan Roots Ecumenical Partnership.